# Cwestiynau Cyffredin

| Cyffredinol | |
|---|---|
| **Beth yw Platfform Profiad Dysgwr [LXP]?** | Mae Platfform Profiad Dysgu yn ddarn o feddalwedd sy’n creu profiadau dysgu mwy personol, ac yn helpu defnyddwyr i ddarganfod cyfleoedd dysgu newydd. Enghraifft o hyn fyddai cyfuno cynnwys dysgu o wahanol ffynonellau, eu hargymell a'u cyflwyno mewn ffordd hyblyg. |
| **Beth yw System Rheoli Dysgu?** | Mae System Rheoli Dysgu (LMS) yn ddarn o feddalwedd a ddyluniwyd i greu profiad dysgu mwy deniadol ac mae'n cyfuno cyrsiau hyfforddi ar-lein â dysgu anffurfiol yn y gweithle. |
| **Beth yw Thinqi [‘Think-e’]?** | Mae Thinqi yn dwyn ynghyd nodweddion LMS modern i helpu i drefnu a rheoli eich anghenion dysgu, e.e. trwy sicrhau bod cynnwys ar gael i chi a'n gweithlu. Mae'n gwneud hyn wrth gyfuno nodweddion LXP i gyflwyno profiad dysgu mwy personol sy'n galluogi defnyddwyr i ddarganfod amrywiaeth ehangach o ffynonellau ac adnoddau dysgu. |
| **Pam mae angen System Rheoli Dysgu arnom?** | Gall System Rheoli Dysgu helpu i uwchsgilio gweithlu. Mae’n hanfodol ein bod nid yn unig yn gallu cyrraedd pobl gyda’r dysgu cywir mewn ffordd y gallant gael mynediad hawdd ato, ond hefyd yn gallu pennu’r llwybrau datblygu perthnasol i ddiogelu ein gweithlu at y dyfodol. |
| **Pam nad ydw i wedi cael yr holl eiconau rydw i wedi'u gweld ar y fideo?** | Y flaenoriaeth gychwynnol i bawb yw ymgyfarwyddo â’r system a chwblhau’r Dysgu Hanfodol. Ymhen amser byddwn yn ychwanegu mwy o gynnwys ac yn galluogi mwy o'r eiconau. |

| Mynediad a Mewngofnodi | |
|---|---|
| **A allaf gael Thinqi ar fy ffôn symudol?** | Gallwch, rydym wedi gweithio gyda Thinqi fel bod y system newydd yn gwbl ymatebol ar gyfer dyfeisiau symudol a phorwyr gwe modern fel eich bod yn rhydd i ddysgu wrth symud. Os yw’n ddyfais Blaenau Gwent ac wedi’i chysylltu â rhwydwaith y cyngor, gallwch ddefnyddio’r opsiwn Mewngofnodi Sengl i fewngofnodi. |
| **Beth os nad oes gennyf gyfeiriad e-bost Blaenau Gwent?** | Bydd Thinqi ar gael trwy eich cyfeiriad e-bost personol - dyma fydd y cyfeiriad e-bost rydych chi wedi'i storio yn iTrent. I wirio hyn a gwneud unrhyw addasiadau ewch i Employee Self Serve (ESS) ESS - Login |
| **Rwyf wedi dilyn y cyfarwyddiadau ond ni allaf fewngofnodi. Ble gallaf gael cymorth?** | Os ydych chi'n ceisio defnyddio'r opsiwn Mewngofnodi Sengl i fewngofnodi i Thinqi, sicrhewch eich bod yn defnyddio dyfais y cyngor, a'ch bod wedi'ch cysylltu â rhwydwaith Blaenau Gwent.<br><br>Os ydych chi’n ceisio mewngofnodi naill ai gyda’ch cyfeiriad e-bost gwaith neu bersonol, cliciwch ‘Forgotten your password’ a rhowch eich cyfeiriad e-bost i ailosod eich cyfrinair Thinqi.<br><br>Os na allwch fewngofnodi o hyd, e-bostiwch thinqisupport@blaenau-gwent.gov.uk gan roi manylion y broblem, a bydd un o’r tîm yn gallu eich cynorthwyo. Bydd angen eich enw llawn a'ch cyfeiriad e-bost dewisol arnynt er mwyn adnabod eich cofnod. |

| Pobl | |
|---|---|
| **Rwy'n rheolwr, ond mae aelodau'r tîm sy'n dangos pan fyddaf yn clicio ar yr eicon 'People' yn anghywir. Beth ddylwn i ei wneud?** | Mae Thinqi yn cael gwybodaeth gan eich tîm yn uniongyrchol gan iTrent, felly mae'n bwysig diweddaru'r wybodaeth honno, nid yn unig ar gyfer Thinqi, ond hefyd fel eich bod yn gweld ac yn rheoli'ch tîm yn iTrent yn gywir. Cysylltwch â hrpayroll@blaenau-gwent.gov.uk am gymorth os oes unrhyw anghysondebau |
| **Rwy'n rheolwr ac wedi recriwtio rhywun sy'n trosglwyddo o swydd arall ym Mlaenau Gwent. A oes angen iddynt gael mynediad gwahanol i Thinqi?** | Nac oes. Ar ôl i'r ffurflen drosglwyddo gael ei phrosesu ac iTrent gael ei diweddaru gyda manylion y swydd newydd a'r rheolwr llinell, bydd Thinqi yn diweddaru'r manylion hyn yn awtomatig dros nos. **Sylwch na fydd y manylion yn newid ar Thinqi cyn dyddiad cychwyn y rôl newydd.** |
| **Rwy'n rheolwr ac wedi recriwtio aelod newydd o'r tîm sy'n newydd i Flaenau Gwent. Sut mae gofyn am fynediad i Thinqi?** | Mae Thinqi yn cael gwybodaeth am eich tîm yn uniongyrchol gan Ddatblygu Sefydliadol, felly mae'n bwysig bod dechreuwyr newydd yn cael eu prosesu'n brydlon. Os bydd gan eich aelod newydd o'r tîm gyfeiriad e-bost gwaith, cofiwch y bydd angen i chi hefyd wneud cais am fynediad Defnyddiwr Newydd gan ddefnyddio Hunanwasanaeth TGCh ar eich bwrdd gwaith. Unwaith y bydd yr elfennau hyn wedi'u cwblhau, bydd Thinqi yn cael y wybodaeth gan Datblygu Sefydliadol a fydd yn creu'r cyfrif. Bydd Dysgu Hanfodol yn cael ei aseinio i'r cyfrif yn awtomatig. Byddwch hefyd yn gallu neilltuo dysgu rôl-benodol unwaith y bydd y cyfrif yn weithredol. |
| **A yw Thinqi ar gael i holl staff y Cyngor, gan gynnwys gweithwyr dros dro a gweithwyr Asiantaeth?** | Os oes gennych unrhyw staff asiantaeth neu fyfyrwyr yn gweithio gyda'ch tîm ar hyn o bryd, a'u bod yn rhan o'ch sefydliad staffio, bydd ganddynt drwydded Thinqi.<br><br>Os nad ydynt yn rhan o'ch sefydliad staffio (er enghraifft, uwch-rif) cysylltwch â thinqisupport@blaenau-gwent.gov.uk am gyngor ar sut y gallant gael mynediad at gyrsiau hyfforddi hanfodol. |

| Dysgu | |
|---|---|
| **Mae'r e-ddysgu rwy'n ceisio'i gwblhau yn rhoi neges gwall. A ddylwn i ei adael a cheisio eto ddiwrnod arall?** | Mae eich adborth yn amhrisiadwy i ni, felly rhowch wybod am unrhyw broblemau i'r cyfeiriad e-bost thethinqisupport@blaenau-gwent.gov.uk neu drwy'r ffurflen adborth a geir yma. Bydd yn ein helpu i'ch cynorthwyo'n gyflymach os gallwch gynnwys sgrinlun o'r gwall yn eich e-bost. |
| **Rwyf wedi cwblhau dysgu mewn rôl flaenorol. A allaf ychwanegu hwn at fy nghofnod dysgwr?** | Gallwch, fel Dysgwr, gallwch ychwanegu dysgu blaenorol trwy system Thinqi. Gellir cyrchu hwn trwy'r eicon My Learning a'r tab CDP Record. Gellir nodi manylion y dysgu blaenorol ac ar ôl ei gadarnhau, bydd sbardun awtomatig yn cael ei roi i'ch Rheolwr i'w awdurdodi. |
| **Pam nad yw fy holl ddysgu blaenorol yn cael ei ddangos ar Thinqi?** | Bydd unrhyw ddysgu hanfodol yr ydych eisoes wedi'i gwblhau yn cael ei gadw a'i ddwyn i mewn i Thinqi o fewn 24 awr i'ch mynediad gael ei weithredu. Bydd cofnodion dysgu adrannol/penodol pellach yn dilyn wrth i ni ymgysylltu â gwasanaethau a thimau i gael y fath fanylion. |
| **Rwyf wedi cwblhau modiwl e-ddysgu, ond nid yw'r bathodyn wedi'i ddyfarnu. Beth sydd angen i mi ei wneud?** | Sicrhewch eich bod wedi clicio ar 'Start Badge' er mwyn cofrestru ar y bathodyn. Bydd Thinqi wedyn yn cydnabod cwblhau ac yn dyfarnu'r bathodyn. Weithiau gall hyn gymryd ychydig funudau i ddangos ei fod yn gyflawn. |
| **Rydym yn darparu hyfforddiant i staff yn ein hadran a hoffem siarad â rhywun am leoli'r hyfforddiant hwnnw ar Thinqi. Gyda phwy ddylwn i gysylltu?** | E-bostiwch thinqisupport@blaenau-gwent.gov.uk gyda manylion a bydd aelod o'n tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion. |
| **Hoffem ddatblygu rhywfaint o Ddysgu Digidol newydd i'w leoli ar Thinqi. Ble rydyn ni'n dechrau?** | E-bostiwch thinqisupport@blaenau-gwent.gov.uk gyda manylion a bydd aelod o'n tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion. |